Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Menter a Dysgu
Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru

Beth yw dyslecsia?
Mae pobl sydd â dyslecsia yn ei chael yn anodd i ddarllen, ysgrifennu a sillafu geiriau. Efallai eu bod yn teimlo eu bod yn darllen yn araf, yn ysgrifennu llythrennau yn y drefn anghywir wrth sillafu a bod trefn geiriau yn anodd iddynt.

Gall unrhyw un gael dyslecsia. Nid yw'n gysylltiedig â lefelau deallusrwydd. Mae rhai pobl yn credu bod bechgyn yn fwy tebygol o gael dyslecsia. Yn aml, bydd mwy nag un aelod o'r un teulu â dyslecsia.

Pwy gymerodd rhan?
Gofynnwyd i bedwar Aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu, un o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad, i ystyried beth y gellid ei wneud i helpu pobl sydd â dyslecsia yng Nghymru.

Yr Aelodau Cynulliad oedd:
Alun Cairns AC
Janet Ryder AC
Jeff Cuthbert AC
Kirsty Williams AC

Cytunodd y Pwyllgor llawn â'u casgliadau.

Beth wnaeth y grŵp?
Siaradodd yr Aelodau Cynulliad â phobl sy'n cynrychioli elusennau dyslecsia a phobl sy'n darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl sydd â dyslecsia.

Bu'r Aelodau hefyd yn cyfarfod ag oedolion â dyslecsia, plant â dyslecsia a'u rhieni.

Bu'r Aelodau ar ymweliadau yng Nghymru a'r Unol Daleithiau i ddysgu mwy am y cymorth sydd ar gael i bobl â dyslecsia ac i glywed am yr ymchwil gwyddonol diweddaraf i ddyslecsia.

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Dyslecsia ym mis Tachwedd 2007, daeth tri arbenigwr â diddordeb arbennig mewn dyslecsia i drafod â'r Pwyllgor Menter a Dysgu.

Faint o bobl sydd â dyslecsia?
Nid oes unrhyw ystadegau swyddogol ond mae llawer o bobl yn cytuno bod un o bob deg person â dyslecsia.

Beth oedd argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu?

- Mae'n hanfodol y caiff plant a all fod â dyslecsia eu hadnabod cyn gynted â phosibl ac y darperir cymorth ar eu cyfer cyn gynted â phosibl.
- Mae angen gwella hyfforddiant i athrawon, cynorthwywyr dosbarth ac athrawon arbenigol (SENCOs) yn sylweddol er mwyn eu galluogi i ddarparu cymorth effeithiol i blant sydd â dyslecsia.
- Dylai pob ysgol gyflogi athro/athrawes sy'n arbenigo mewn dyslecsia.
- Dylid cynnal profion plant drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg i ganfod os oes dyslecsia ganddynt ac yna dylai deunyddiau atodol fod ar gael i blant yn eu dewis iaith.
- Dylid cynnal gwaith ymchwil annibynnol er mwyn darparu gwybodaeth ddibynadwy i helpu pobl sydd â dyslecsia benderfynu pa fath o gymorth a fyddai'n fwyaf effeithiol yn eu hachos hwy.
- Dylid cynnal astudiaeth ar wahân o gymorth gyfrifiadurol meddalwedd *Fast ForWord*®.

Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael copïau caled pellach o'r adroddiad hwn a chopïau fformat amgen oddi wrth:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Gwasanaeth y Pwyllgor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffon: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: enterprise.learning.comm@wales.gsi.gov.uk